Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

24 Heol y Gadeirlan / Cathedral Road
Caerdydd / Cardiff CF11 9LJ
Ffôn / Tel: 029 20 320500
info@audit.wales / post@archwilio.cymru
www.audit.wales / www.archwilio.cymru

Mr Nick Ramsay AC
Cadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd CF99 1NA

Dyddiad: 30 Medi 2016
Ein cyf: HVT/2612/caf


Annwyl Nick

**LLYWODRAETH CYMRU YN CAFFAEL A PHERCHNOGI MAES AWYR CAERDYDD**

Gofynnodd y Dirprwy Glerc am fy nghyngor ar ymateb Llywodraeth Cymru i adroddiad y Pwyllgor blaenorol ym mis Mawrth 2016 ar 'Llywodraeth Cymru yn caffael a pherchnogi Maes Awyr Caerdydd'. Mae ymateb Llywodraeth Cymru hefyd yn rhoi'r diweddaraf ar weithredu mewn ymateb i'm hadroddiad fy hun ar y pwnc hwn ym mis Ionawr 2016. Mae sawl un o'm hargymhellion yn ymwneud yn agos â materion a gwmpaswyd gan y Pwyllgor blaenorol yn ei argymhellion.

Rwyf yn ymwybodol bod y Pwyllgor wedi cael rhywfaint o ohebiaeth gan Gadeirydd Cardiff International Airport Limited (CIAL) a Rheolwr Gyfarwyddwr y Maes Awyr ei hun. Mae'r diweddariad a roddwyd gan CIAL mewn ymateb i bump o argymhellion y Pwyllgor blaenorol yn ategu ymateb Llywodraeth Cymru i raddau helaeth ac mewn rhai achosion mae'n rhoi rhagor o fanylion. Mae CIAL hefyd wedi darparu diweddariad hanner blwyddyn sy'n canolbwyntio ar faterion gweithredol a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2016.

Mae Llywodraeth Cymru wedi derbyn pob un o argymhellion y Pwyllgor blaenorol. Yn achos argymhelliad 2, mae Llywodraeth Cymru wedi ystyried rhinweddau'r model llywodraethu a ddefnyddiwyd gan Transport Scotland ar gyfer Maes Awyr Glasgow Prestwick ond penderfynodd fod y trefniadau presennol yma yn well ar gyfer yr amgylchiadau mewn perthynas â CIAL. Fel y nodwyd yn fy adroddiad, mae cwmni daliannol Llywodraeth yr Alban ar gyfer Maes Awyr Glasgow Prestwick yn cael ei gadeirio gan gyfarwyddwr anweithredol annibynnol, a recriwtiwyd drwy gystadleuaeth agored (sydd hefyd yn cadeirio bwrdd cwmni gweithrediadau'r maes awyr). Mae Prif Weithredwr Maes Awyr Glasgow Prestwick hefyd yn aelod o fwrdd y cwmni daliannol.

Llinell Uniongyrchol: 029 2032 **0510** E-bost: huw.vaughan.thomas@archwilio.cymru

Ar y cyfan, rwyf o'r farn bod yr ymateb i argymhellion y Pwyllgor blaenorol yn foddhaol, gyda Llywodraeth Cymru hefyd yn ymrwymo i ddarparu rhagor o ddiweddariadau ar rai materion parhaus. Serch hynny, fe all y Pwyllgor geisio rhagor o fanylion gan swyddogion Llywodraeth Cymru yn ystod y sesiwn dystiolaeth a drefnwyd ar gyfer dydd Llun 10 Hydref ar faterion yn cynnwys:

- y rhagolygon diweddaraf ar gyfer twf teithwyr ym Maes Awyr Caerdydd, gan ystyried effaith y cytundeb gyda Flybe y cyfeirir ato yn y papurau a ddarparwyd gan CIAL a'r rhagolygon yng nghynllun busnes 2016 CIAL;
- a fydd rhagamcanion 20 mlynedd yn nodwedd reolaidd o gynlluniau busnes CIAL yn y dyfodol;
- y canlyniadau o'r adolygiad cyflwr ariannol a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru a'r cais diweddaraf am fenthyciad gan CIAL (yn cynnwys yn yr amserlen a ragwelir ar gyfer ystyried y cais);
- natur y dangosyddion perfformiad sydd wedi'u datblygu ar gyfer CIAL (fel y nodwyd yn yr ymateb i argymhelliad 4 yn fy adroddiad); a
- rôl Cadeirydd CIAL ar Fwrdd WGC Holdco (sy'n berthnasol i argymhelliad 2 yn fy adroddiad) a'r amserlen a ragwelir ar gyfer cwblhau camau gweithredu sy'n ymwneud â newidiadau yn aelodaeth byrddau CIAL a WGC Holdco.


**HUW VAUGHAN THOMAS**
ARCHWILYDD CYFFREDINOL CYMRU